Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys (CAH)
Hawl y Cyhoedd i Weld a Chyfleusterau Chwilio

Hawl y Cyhoedd i Weld

Rydym yn croesawu ymholiadau ynghylch amgylchedd hanesyddol gogledd-ddwyrain a chanolbarth Cymru.

Trwy lansio *Archwilio*, mae gan y cyhoedd fynediad ar-lein i bob un o bedwar Cofnod o Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Mae hyn yn caniatáu i bobl ymholi ac ymchwilio i wybodaeth am archaeoleg ac adeiladau hanesyddol Cymru wrth eu pwysau. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd yn golygu na fydd angen mwyach i rai ymholwyr gysylltu â CPAT. Dylid parhau i gyfeirio ymholiadau cymhleth a'r rheini oddi wrth sefydliadau sy'n ymgymryd â chontractau masnachol at staff yr Ymddiriedolaeth.

Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth sy'n galw am amser staff CPAT trwy lythyr, dros y ffôn, trwy ffacs neu e-bost, neu drwy lenwi a dychwelyd y *Ffurflen Ymholi* sydd ar gael trwy'r ddolen yn *Archwilio*. Gall ymholwyr sy'n cysylltu â ni trwy e-bost ddisgwyl derbyn ateb yn cadarnhau bod eu cais wedi'i dderbyn ac yn rhoi awgrym o faint o amser y bydd yn ei gymryd i brosesu eu hymholiad. Pan fydd yr ymholwr yn ffacsio ffurflen gais i'r HER, fe ddylai hefyd ffonio i gadarnhau bod y ffacs wedi'i dderbyn.

At ddibenion gweinyddol, ac er mwyn atal camddefnyddio gwybodaeth, gofynnwn i bob defnyddiwr ddweud wrthym pam eu bod yn gwneud ymholiadau, a chytuno ar ein hamodau a thelerau hawl i weld (gwelwch y cysylltiad *Amodau Defnyddio* ar *Archwilio* ac *Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru Canllawiau ar gyfer Hawl i Weld a Chodi Tal*). Mae *Archwilio* yn cofnodi'n awtomatig y chwiliadau y mae ymholwyr ar-lein yn eu gwneud, ac ni chaniateir mynediad i wybodaeth ar-lein oni bai y cytunir i gydymffurfio â'n hamodau a'n telerau mynediad y gellir eu gweld trwy *Archwilio.*

Unwaith y bydd y wybodaeth wedi'i dwyn ynghyd, fe fydd yn cael ei throsglwyddo i'r ymholwr trwy'r cyfrwng mwyaf addas, naill ai yn electronig trwy e-bost, neu drwy'r post. Gellir casglu deunydd o swyddfeydd CPAT os gwneir trefniadau ymlaen llaw.

Cyfeiriad Post - Swyddog Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR
Ffôn - 01938 553670
Ffacs - 01938 552179
E-bost – trust*at*cpat.org.uk
Wefan - http://www.cpat.org.uk/services/smr/w_smr.htm

Dylid trefnu apwyntiadau cyn ymweld â'r Cofnod o Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys yn bersonol; cysylltwch â'r Swyddog CAH i drefnu amser cyfleus i ymweld.

Oriau agoriadol - Dydd Llun i Dydd Gwener 10yb i 1yh a 2yh i 5yh.

Cyfleusterau Chwilio
Darperir terfynell gyfrifiadurol i'r cyhoedd ei defnyddio yn swyddfeydd CPAT er mwyn i'r cyhoedd allu mynd ati i defnyddio *Archwilio* eu hunain. Bydd aelod o staff ar gael i roi cyfarwyddiadau ac i gynorthwyo wrth ichi chwilio.

Pan fydd ar gael, gallwch ddefnyddio'r llyfrgell a'r ystafell gyfarfodydd i astudio amrywiaeth o lyfrau, cylchgronau, ffotograffau, mapiau, lluniadau a dogfennau printiedig sy'n ymwneud ag archaeoleg a hanes.

Mae yna gyfleusterau llungopïo a sganio ar gael.

Mae yna gyfleusterau toiled ar gael.

Mynediad i'r Anabl
Mae'n ddrwg gennym fod gan swyddfeydd CPAT yn 41 Stryd Lydan dim ond mynediad a chyfleusterau cyfyngedig ar gyfer pobl ag anableddau. Rydym yn gobeithio bod cyflwyno *Archwilio* yn lliniaru'n fawr ar y sefyllfa hon ond yn cydnabod y bydd dal angen gweld deunyddiau copi caled a ddelir yn 41 Stryd Lydan ar gyfer rhai ymholiadau. Dan yr amgylchiadau hyn efallai bydd rhaid i staff Cofnod Amgylchedd Hanesyddol CPAT ateb yr ymholiad trwy ebost neu drwy'r post.

Deddf Diogelu Data (1998)
Mae yna hawl i weld y CAH i archwilio gwybodaeth bersonol sydd wedi'i chadw mewn system gyfrifiadurol sydd wedi'i chofrestru dan y Ddeddf Diogelu Data (1998). Cesglir y wybodaeth hon at ddibenion gweinyddu cofnodion Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a darparu cyngor archaeolegol. Defnyddir y wybodaeth i fonitro a gwella'r gwasanaethau y mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn eu cynnig. Ni ddarperir hi i unrhyw asiantaethau neu unigolion allanol.

Bydd gwaith papur ymholiadau CAH yn cael ei gadw am 3 blynedd, ac yna bydd yn cael ei ddinistrio.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu bryder ynglyn â hyn, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru berthnasol (mae'r manylion cysylltu ar y dudalen *Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru Canllawiau ar gyfer Hawl i Weld a Chodi Tal*).

Jeff Spencer
(Swyddog Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol)
Mai 2011